CYNGOR

DYDD IAU, 28 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd (Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Manzoor Ahmed, Dilwar Ali, Aubrey, Bale, Bowden, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Richard Cook, Cowan, Kirsty Davies-Warner, Chris Davis, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Evans, Goodway, Govier, Graham, Groves, Hill-John, Hinchey, Holden, Howells, Hudson, Hunt, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Lomax, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, David Rees, Dianne Rees, Robson, Sanders, Simmons, Stubbs, Thomas, Ben Thomas, Graham Thomas, Lynda Thorne, Walker, Walsh, Weaver, White, Wild, Darren Williams a/ac Woodman |

40 : TEYRNGEDAU ER COF Y CYNGHORYDD MOHAMMAD JAVED

Galwodd yr Arglwydd Faer am funud o dawelwch er cof y Cynghorydd Mohammed Javed a fu farw yn gynnar ar 24 Gorffennaf 2016.

Arweiniodd y Dirprwy Arweinydd a chydweithiwr ward y Cynghorydd Lent y teyrngedau i’r Cynghorydd Javed a oedd yn falch iawn o gael ei ethol i wasanaethu cymuned Plasnewydd yn 2012. Roedd yn bresenoldeb mawr yn y ward ac roedd bob amser yn ymroddedig i'w gymuned a’r gymuned Pacistanaidd a Moslemaidd ehangach yng Nghaerdydd a thu hwnt. Byddai ei farwolaeth yn gadael twll mawr ym mywydau llawer o bobl.

Siaradodd y cyd-gynghorwyr Ali Ahmed, Dilwar Ali a Patel am rôl arweinyddiaeth a chyfraniadau'r Cynghorydd Javed at fywydau llawer o drigolion Caerdydd ac arweiniodd y Cynghorydd Woodman deyrngedau ar ran Aelodau’r wrthblaid.

Dywedodd yr Arglwydd Faer ei bod wedi ysgrifennu ar ran yr holl Aelodau at Shazia a’r teulu i gyd yn mynegi tristwch mawr am eu colled.

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Boyle, Burfoot, Ford, Goddard, Gordon, Keith Jones, Magill, Marshall, McEvoy, Morgan a Jackie Parry.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

| Cynghorydd | Buddiant |
|---|---|
| Y Cynghorydd Lomax | Eitem 8(b) Adroddiad blynyddol CASSC – buddiant personol – preswylydd llety gwarchod y Cyngor |
| Y Cynghorydd | Eitem 8(b) Adroddiad blynyddol CASSC – |

| | |
|---|---|
| Sanders | buddiant personol – aelod o'r teulu'n derbyn Taliadau Uniongyrchol. |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 7 – Strategaeth Cyllideb – buddiant personol gan fod Aelod o'r teulu'n derbyn gwasanaethau Gofal Cymunedol/Gwasanaethau Anabl a Teleofal. |
| Y Cynghorydd Woodman | Eitem 8(b) Adroddiad blynyddol CASSC – buddiant personol – Llywydd Anrhydeddus Diverse Cymru sy'n dosbarthu taliadau uniongyrchol ar gyfer Cyngor Caerdydd |
| Y Cynghorydd Groves | Eitem 8(b) Adroddiad blynyddol CASSC – buddiant personol yn derbyn taliadau uniongyrchol gwasanaethau gofal cartref, a phriod yn derbyn gwasanaethau gofal cartref gan y Cyngor. |

43 : COD YMARFER

Atgoffodd yr Arglwydd Faer Aelod am ei datganiad y mis diwethaf ar ei disgwyliadau am ymddygiad cyfarfodydd y Cyngor yn ystod fy mlwyddyn yn gweithio yn fy swydd.

Disgwyliwyd yr Arglwydd Faer i gyfraniadau Aelodau ddangos parch at ei gilydd trwy'r amser ac y cynhelir trefn yn y siambr pan fo aelodau'n siarad.

Ar yr adeg hon yn y gweithrediadau, aeth yr Arglwydd Faer ymlaen at y cais gan y Cynghorydd Holden, Chwip Grŵp Plaid Cymru ar gyfer datganiad o esboniad personol mewn perthynas â materion yn codi yng Nghyfarfod y Cyngor ar 30 Mehefin 2016.

Rhodd y Cynghorydd Holden y datganiad canlynol mewn perthynas â sylwadau a wnaethpwyd gan aelodau Grŵp Plaid Cymru ar gyfryngau cymdeithasol a oedd wedi digio Aelodau'r Grŵp Llafur ac Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bale.

Diolchodd y Cynghorydd Holden i'r aelodau am y cyfle i ymddiheuro ar ran grŵp Plaid Cymru Cyngor Caerdydd a'i aelodau ehangach.

Dywedodd y cafodd ei frawychu gan ymddygiad Aelodau yn y siambr ar bob ochr bedair blynedd yn ôl pan ddaeth i mewn i'r siambr. Dyfarodd fod yr ymddygiad hwn wedi parhau i waethygu. Nododd nad oedd yn esgusodi'r ymddygiad hwn neu gymryd rhan ynddo a'i fod wedi bod yn destun ymddygiad difrïol yn bersonol mewn misoedd diweddar ac wedi penderfynu peidio â'i adrodd.

Roedd y Cynghorydd Holden yn gobeithio y byddai'r datganiad hwn yn dechrau tynnu llinell dan elyniaeth bersonol hir rhwng detholiad o Aelodau o'r Cyngor hwn.

Ailadrodd y Cynghorydd Holden sylwadau cynharach yr Arglwydd Faer am barch, ac anogodd bob Aelod o bob plaid wleidyddol i dalu sylw iddynt.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorydd Holden a rhodd gyfle i'r Prif Gynghorydd Chwip Hunt i ymateb.

Diolchodd y Cynghorydd Hunt i Chwip y Grŵp Plaid am yr ymddiheuriad a nododd ei fod yn siarad ar ran y blaid fel cyfanwaith. Nododd fod problem sylweddol o hyd o ran y Grŵp Llafur, gyda phethau a ddywedwyd yn ystod y cyfarfod ac ar ôl y cyfarfod a gynhaliwyd y mis diwethaf. Nododd y byddai'r grŵp yn disgwyl i gamau gweithredu gael eu cymryd o ran y sylwadau hynny ac y byddai'n ceisio mwy o arweiniad gan y Swyddog Monitro Dros Dro a'r Prif Weithredwr o ran y pryderon a godwyd.

Hefyd pwysleisiodd y Cynghorydd Hunt ei fod yn bwysig bod Aelodau'n parchu ei gilydd er gwahaniaeth barn; a siarad â'i gilydd gyda mwy o gwrteisi. Cymharodd yr ymddygiad ag ymddygiad lleoliad cyflogaeth a chamau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd yn y gweithle i ymdrin â materion Cyfryngau Cymdeithasol ac ymddygiad annerbyniol.

Cefnogodd y Cynghorydd Hunt y sylwadau ar weld mwy o barch at bobl eraill a'r defnydd o iaith yn y siambr.

## 44 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 30 Mehefin 2016 fel gwir gofnod yn amodol ar ddau wall teipio:

- Cofnod Rhif 24: Tudalen 18 Deisebau'r Cyng. Hudson – dileu Crystal View a rhoi Crystal ***Avenue*** yn ei le.
- Cofnod Rhif 25 Tudalen 21 Dylai paragraff olaf 'Ein Caerdydd' ddweud: - 'Gallwch hefyd **weld** y cyhoeddiad cyntaf erioed yn *Gymraeg* neu yn *Saesneg* ar wefan y Cyngor.'

## 45 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y Deisebau canlynol: -

1. Y Cynghorydd Carter: - 3,274 llofnod yn gofyn i'r Cyngor gau'r fynedfa ar ben y sleid fawr ym maes chwarae i blant ym mharc y Rhath.

2. Y Cynghorydd Hinchey: - 69 llofnod o blaid cynigion i gyflwyno cymysgedd o fannau parcio i Breswylwyr yn Unig a mannau Aros Cyfyngedig yn Heath Park Avenue, Allensbank Road a'r stryd gyfagos rhwng King George V Drive a llinell y rheilffordd.

3. Y Cynghorydd Ali Ahmed: - 536 llofnod yn mynegi pryderon na fydd cynigion Cyngor Caerdydd presennol am fannau parcio i breswylwyr yn unig (C2256) yn bodloni eu hanghenion i barcio'n ddiogel yn agos at eu cartrefi.

4. Y Cynghorydd Bridges: - 192 llofnod yn gofyn i’r Cyngor a Llywodraeth Cymru ddod â chynlluniau ar gyfer gorsaf Mynachdy a Thalybont gerbron yn rhan o unrhyw gynigion Metro Caerdydd

5. Y Cynghorydd Kelloway: - 89 llofnod gan drigolion yng nghyffordd Cyncoed/Llanedeyrn Road ac o’i chwmpas yn gofyn i’r Cyngor adeiladu croesfan ddiogel wrth gyffordd Cyncoed Road â Llanedeyrn Road.

46 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

**Cwestiwn y Cyhoedd:** *Mr Seymour*

Allai’r Aelod Cabinet roi gwybod am bryd a sut yr ymdrinnir â’r cais i fodloni preswylwyr sy’n byw yn ardal cyffordd Cyncoed Road a Llanedeyrn Road? Rydym wedi bod yn gofyn am y groesfan hon ers 2010.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Mae cynllun gwella cyffyrdd yn y lleoliad hwn wedi'i ychwanegu at raglen i’r dyfodol y Cyngor ac mae'n aros am arian. Mae 60 cynllun ar restr rhaglen i’r dyfodol ar hyn o bryd, ac mae pob cynllun wedi'i raddio yn ôl blaenoriaeth, gan ystyried ffactorau fel llifau traffig a cherddwyr, cyflymderau cerbydau, hanes gwrthdrawiadau, a thargedau polisi.
Yn anffodus, mae’r cynllun hwn yn y 59fed safle allan o’r 60 cynllun sydd ar y rhestr ac mae'n annhebyg, felly, y caiff ei weithredu yn y dyfodol agos.

**Cwestiwn y Cyhoedd:** *Mr Seymour*

Mae’r ateb i’r cwestiwn yn annerbyniol i mi ac rwy’n siŵr ei fod yn annerbyniol hefyd i’r 90 o bobl sydd wedi llofnodi’r ddeiseb sydd wedi’i chyflwyno.

Yn sicr, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw dod o hyd i ffyrdd arloesol o godi arian fel y mae modd ariannu cynlluniau fel hyn. Fel, efallai, codi dirwyon mwy llym ar yrwyr sy’n parcio cerbydau ar y palmant, yn enwedig yn yr ardal hon.

Oni allai hynny godi arian i adeiladu croesfannau diogel i gerddwyr?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Rydym yn dod o hyd i lawer o ffyrdd o godi arian. Un o’r ffyrdd i'w wneud yw trwy Adran 106, yn aml, trwy'r broses gynllunio, a wneir trwy'r broses honno. Yn ogystal rydym yn aml - wel, rydym *bob amser* yn gwneud cais am grantiau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Ond, hefyd, yr arian rydych yn sôn am ei gael trwy godi dirwyon ayyb – mae llawer o hynny eisoes wedi’i ddefnyddio mewn llawer o ffyrdd.

Rydym yn ei ariannu ond y flaenoriaeth yw’r flaenoriaeth o hyd. Yn y pen draw, nid allwn symud rhywbeth i fyny'r ysgol - os hoffech ddweud hynny - os oes cynllun sydd

â mwy o flaenoriaeth. Ond yn bendant mae'r holl gynlluniau hyn wedi'u blaenoriaethu yn y drefn rydym yn gallu ei greu. Mae arian wedi'i gyfyngu, yn anffodus. Fel y dywedais, nid oes gennym symiau diddiwedd o arian. Hoffwn fod â symiau diddiwedd o arian. Pe bai'r symiau hyn gennym, byddwn yn gallu gwneud pob cynllun.

47 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Y Cynghorydd McEvoy
Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd McEvoy ar ei briodas ddiweddar i Ceri a dymunwn bob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

Cydnabyddiaeth a Gwobrau

Bu'r Arglwydd Faer ar ran y Cyngor yn falch o longyfarch:

Eiliadau Staff sy'n 'Gwneud Gwahaniaeth'
Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r tîm Cyfathrebiadau a Chyfryngau wedi bod yn cynnal ymgyrch fewnol i ddathlu'r holl eiliadau y mae staff y Cyngor wedi'u creu sy'n helpu i wneud gwahaniaeth.

Mae dros 600 o gyflogeion wedi'u cydnabod gan gydweithwyr yn rhan o'r ymgyrch, a gwnaeth y Prif Weithredwr gwrdd â'r prif saith enwebiad canlynol yn gynharach yr wythnos hon i'w llongyfarch yn bersonol am eu gwaith caled a'u hymdrechion.

1. Jonathan Day, Datblygu Economaidd – wedi'i enwebu am ei gyfraniad sylweddol at y Fargen Ddinesig a phrojectau Ardal Gwella Busnes Caerdydd

2. Tîm Adnoddau Cymunedol, Gofal Cymdeithasol – wedi'i enwebu am ei garedigrwydd, ei drugaredd a'i gyfeillgarwch y mae'n eu dangos i ddefnyddwyr ei wasanaeth a'i deuluoedd yn ystod amseroedd sensitif iawn.

3. Rob Jones a Thîm, Gweithrediadau'r Parciau - wedi'u henwebu am eu rhan a'u cefnogaeth yng Nghynllun Rhaglen Hyfforddi'r Cyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

4. Toby Tobenas, Stuart Weadon, Craig Owen, o Weithrediadau'r Ddinas a Thîm Gwasanaethau'r Gymdogaeth. Wedi'u henwebu am eu "job lanhau ardderchog" ar y cyd cyn ac ar ôl Hanner Marathon Caerdydd

5. Timau Diogelwch ar y Ffyrdd a Gorfodi Parcio Sifil, Gweithrediadau'r Ddinas – wedi'u henwebu am hyrwyddo'r Cynllun Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd Ieuenctid yn llwyddiannus mewn ysgolion ac addysgu rhieni a gofalwyr am broblemau ynghylch parcio y tu allan i'r ysgol. Maent wedi gweithio gyda'i gilydd gydag Iman lleol i nodi mannau parcio ar gyfer gweddïau ar brynhawniau Gwener i ddatrys materion parcio, ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac yn cael ei drosglwyddo at Fosgiau eraill.

6. David John, C2C – wedi’i enwebu am ei "berfformiad rhagorol" cyffredinol ac ymgymryd â rôl hyfforddi pan nad oedd hyfforddwyr mewnol ar gael i hyfforddi dechreuwyr newydd yn ymuno â’r tîm (C2C)

7. Canolfan Ymchwil Caerdydd, Adnoddau – wedi’i henwebu am ei gwaith i gefnogi’r sefydliad i symud ymlaen. Prin rydym yn ei gweld ond mae’n gweithio y tu ôl i’r llenni i ddod â’i gwybodaeth a’i harbenigedd i lawer o ddarnau o waith yn y Cyngor fel yr Arolwg i Gyflogeion ac Arolwg Holi Caerdydd, sy’n fyw ar hyn o bryd.

Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd

Llongyfarchiadau i'r tîm Rheoli Dŵr a Risgiau am ei waith ar y Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Rhiwbeina. Mae'r cynllun wedi helpu i wneud gwahaniaeth ar gyfer mwy na 200 o gartrefi a busnesau yng ngogledd y ddinas trwy leihau'r risg o lifogydd yn sylweddol ac mae wedi ennill y Wobr Roy Edwards fawreddog yng Ngwobrau Project Cymru Sefydliad Peirianwyr Sifil (ICE)

Mae'r wobr yn dathlu cyfraniad peirianyddiaeth sifil at Gymru trwy gydnabod cynlluniau am eu rhagoriaeth mewn cysyniad, cynllunio a dylunio, rheoli contractau ac adeiladu.

Creodd y ffordd y mae'r cynllun wedi mynd i'r afael ag ystyriaethau amgylcheddol sensitif o'r safle, cydweithredu ag unigolion a chydgysylltu ag unigolion â pherchenogion eiddo a thir argraff fawr ar feirniaid ac ystyriwyd bod yr holl bethau hyn yn 'rhagorol' a gylchredwyd o gwmpas y Siambr

Diweddariad ar Elusen yr Arglwydd Faer

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod mwy o arian yn cael ei godi ar gyfer ei Helusen Ymchwil Canser Cymru ac roedd hi wrth ei bodd o'r gefnogaeth gan Aelodau ac eraill mewn casgliad bwced yn nigwyddiad yr Ardal Cefnogwyr a gynhaliwyd gan y Cyngor yn rhan o Ewro 2016, a gododd £800.

Diolchodd hi hefyd i nifer o ysgolion ar ddiwedd tymor yr haf; busnesau a grwpiau cymunedol lleol sydd wedi bod yn codi arian ar gyfer fy elusen ers y mis diwethaf ac a gododd bron i £3000.

Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Cymru

Roedd yr Arglwydd Faer wrth ei bodd o allu croesawu tîm pêl-droed Cymru gartref gyda dathliad arbennig trwy strydoedd Caerdydd a'r digwyddiad yn Stadiwm Dinas Caerdydd.  Roedd yn noson arbennig.

Rydym i gyd yn falch o'r tîm a'i berfformiad yn Ewro 2016.

## 48 : STRATEGAETH AR Y GYLLIDEB

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Aelod Cabinet, Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Hinchey i gyflwyno'r adroddiad ar lunio strategaeth ariannol ar gyfer y Cyngor i fod yn barod er mwyn paratoi cyllidebau refeniw a chyfalaf 2017/18 i'w cyflwyno i'r Cyngor Cyllideb ym mis Chwefror 2017.

Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2016, ystyriodd y Cabinet adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151 ac fe gymeradwyodd yr argymhellion yn yr adroddiad i'r Cyngor.

Amlinellodd yr adroddiad y gofyniad i'r Cyngor leihau'r gyllideb yn y tymor canolig a rhodd ddiweddariad amdano, a nododd y strategaeth i fynd i'r afael â'r bwlch yn y

gyllideb yn y flwyddyn ariannol i ddod yn ogystal â thrwy gydol bywyd y cynllun ariannol tymor canolig (MTFP).

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod rhagolygon ar gyfer y Cyngor y tu hwnt i amserlen y MTFP wedi'u hystyried, er y dylid codi nifer o rybuddion ar gyfer rhagfynegiadau o'r fath o ystyried nifer y newidion anhysbys.

Tynnodd yr adroddiad sylw at ddifrifoldeb parhaol yr her ariannol a'i heffeithiau ar wydnwch ariannol y Cyngor. Bydd y polisïau, tybion cyllidebol ac offer sy'n sail i'r Strategaeth Cyllideb yn hollbwysig yn y broses o symud y Cyngor ymlaen ar sylfaen sy'n gynaliadwy o ran arian.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar yr adroddiad a thrafodwyd arsylwadau ac amedrau rhif gan gynnwys ymdrechion i bwyso Llywodraeth Cymru ar ddosbarthu ardreth Busnes yng Nghymru; adolygu'r fformiwla Barnet; materion yn ymwneud â chyllidebau Ysgolion; ymgysylltu â phob cymuned; materion yn codi o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gryfder y Rhaglen Datblygu Sefydliadol a'r targedau arbed; gorwario yng ngwasanaethau'r rheng flaen; oedi mewn darparu modelau eraill; rheoli asedau; y lefel a'r cyflogau a roddir i uwch reolwyr.

I grynhoi, ymatebodd yr Aelod Cabinet i unrhyw gwestiynau a godwyd.

PENDERFYNWYD - bod y Cyngor yn cytuno i ac yn mabwysiadu'r Fframwaith Amserlen Cyllidebol a osodir yn Atodlen 2 ac y caiff y gwaith a amlinellir ei symud ymlaen gyda'r nod o lywio paratoadau ar gyfer y gyllideb.

49 : ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU 2015-16

Derbyniwyd a nodwyd yr adroddiadau blynyddol canlynol: -

(a) Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc – cyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Richard Cook;

(b) Pwyllgor Craffu ar Gymunedau a Gwasanaethau Oedolion a – cyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Mary McGarry;

(c) Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant – cyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Rod McKerlich;

(d) Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – cyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Paul Mitchell;

(e) Pwyllgor Craffu ar Adolygu Polisi a Pherfformiad – cyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Nigel Howells.

Canmolodd yr holl Gadeiryddion Craffu waith y Pwyllgor; yr amser a roddwyd gan Aelodau'r Pwyllgor; tystion a rhanddeiliaid i gyfarfodydd a chyfarfodydd Grŵp Gorchwyl; a'r cymorth gwerthfawr a roddwyd gan yr holl Brif Swyddogion Cymorth Craffu.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau gan Aelodau ar yr adroddiadau ac mae'r ymatebion a derbyniwyd yn pwysleisio bod craffu â swyddogaeth bwysig yn y gwaith o lywodraethu'r Cyngor a dwyn y Cabinet a Swyddogion i gyfrif. Roedd gan bob Pwyllgor raglen amrywiol gan gynnwys rhai a arweiniwyd gan bolisi; craffu ar berfformiad a chyllideb; rhai a arweiniwyd gan bynciau i gefnogi gwaith y Cabinet i ddatblygu polisi; a sesiynau galw i mewn o benderfyniadau'r Cabinet.

Roedd y Cadeiryddion Craffu hefyd wedi mynd i'r afael â materion o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â rheoli agendau; canolbwynt y craffu; gwaith y grŵp gorchwyl a chaiff canlyniadau o arolwg diweddar eu dadansoddi yn rhan o Adolygiad parhaol y project gwella Craffu.

Tynnodd nifer o Aelodau sylw at bynciau ar gyfer Rhaglenni Gwaith yn y dyfodol sy'n cael eu paratoi gan bwyllgorau ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD – canmol gwaith y Pwyllgor a nodi Adroddiadau Blynyddol

## 50 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL 2015/16

Roedd Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant, y Cynghorydd Lent, yn falch o gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf. Diolchodd i gyd-aelodau'r pwyllgor am eu hymrwymiad i waith y pwyllgor ar les plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Roedd gan y Pwyllgor raglen waith amrywiol; amserlen o ymweliadau â darparwyr gwasanaeth a gefnogodd digwyddiadau ymwybyddiaeth a gwrando eraill i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Gwahoddwyd Aelodau i sylwi ar yr adroddiad a chanmolodd Aelodau'r Pwyllgor ar ei daith a'i brif feysydd o ganolbwynt; pwysleision nhw'r pwysigrwydd o wrando; ac roeddent yn awyddus y cafwyd gwersi eu dysgu gan bolisïau blaenorol ac y gwnaethpwyd penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol. Cydnabuwyd bod gan y gyfarwyddiaeth hon alwadau cynyddol ond canmolwyd meysydd fel croes-gyfarwyddiaeth; cynlluniau swyddi dan hyfforddiant a phrentisiaeth yn ogystal â hyfforddiant yn yr holl gyngor ar ymwybyddiaeth.

Nodwyd y byddai Aelodau yn cael eu gwahodd i hyfforddiant ar sesiynau â themâu yn yr hydref.

PENDERFYNWYD – derbyn a nodi'r Adroddiad blynyddol Rhianta Corfforaethol.

## 51 : DATGANIADAU'R ARWEINYDD A'R CABINET

Derbyniwyd y datganiadau canlynol ac fe'u cyhoeddwyd ar y wefan.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau ar bob un o'r datganiadau.

<u>Datganiad yr Arweinydd a Datblygu Economaidd a Phartneriaethau</u>

Rhodd yr Arweinydd ddiweddariad ar Ardal Gwella Busnes Caerdydd; Cyfarfod Cabinet Dinasoedd Craidd a Menter Caerdydd.

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiwn ar Economi'r nos a phartneriaethau gan gynnwys gwaith gydag asiantaethau eraill a gweinidogion stryd a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd y cymorth hwn a seilwaith.

Y Dirprwy Arweinydd a Datganiad y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd

Rhodd y Dirprwy Arweinydd ddiweddariad ar Hyb Diogelu Amlasiantaethol; Gwaith Hyblyg a Symudol; Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a dull newydd o Waith Cymdeithasol gyda phlant o'r enw 'Arwyddion o Ddiogelwch'.

Datganiad Addysg

Cynhwysodd datganiad yr Aelod Cabinet wybodaeth am Ariannu Ysgolion; Rhaglen Trefnidiaeth Ysgolion; archwiliadau rheoleiddiol; archwiliad Estyn o Gonsortiwm Addysg Canolbarth De Cymru; Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol; Ymweliadau ag Ysgolion a Chaerdydd 2020.

Canmolodd Aelodau'r adroddiad ar welliannau ysgol gan Estyn a chroesawon nhw hefyd y project SHEP wedi'i greu i helpu i leihau arwahanrwydd a newyn a brofir yn aml gan deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Datganiad Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod am agoriad swyddogol Cynllun Trydan Dŵr Cored Radur.  Gofynnodd yr Aelodau am ddata ar Gilowatau o ynni wedi'i gynhyrchu; tariffau a chynhyrchu incwm.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n rhoi ymateb yn ysgrifenedig.

Datganiad Datblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol

Rhodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar y Model Cyflenwi Amgen (ADM) – Gwasanaethau Hamdden ac agoriad Swyddogol Hyb y Tyllgoed.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar oblygiadau cyllideb Gwasanaethau Hamdden yr ADM a hawliau'r Ardreth Annomestig Genedlaethol.  Byddai mwy o eglurhad i'r cwestiwn am ffigurau Rhwymedigaeth Pensiwn yn cael ei roi.

Datganiad Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu

Rhodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar Arolwg yr Aelodau 2016 ac Arolwg Holi Caerdydd.

Dywedodd Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd y byddai canlyniadau'r arolwg ar gael cyn bo hir a nododd yr Aelod Cabinet y byddai Crynodeb Gweithredol o ganlyniadau Arolwg yr Aelodau yn cael ei gylchredeg i'r holl Aelodau cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Datganiad yr Amgylchedd

Rhodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar Reoli Gwastraff, Gorfodi, Model Cyflawni Amgen y Gwasanaethau Seilwaith, Rhentu Doeth Cymru, Gwasanaethau Profedigaeth; a Pharciau.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Rhentu Doeth Cymru; ailgylchu gwastraff; camau gorfodi a mentrau addysg ar gyfer y system casglu aelwydydd; glanweithdra canol y ddinas; tipio anghyfreithlon; dyfodol Heol Wedal; sbwriel wedi'i adael gan deithwyr; effaith gwylanod a gwastraff masnachol yng nghanol y ddinas/

Croesawodd yr Aelod Ward Lleol y cadarnhad o arian Treftadaeth y Loteri ar gyfer Parc Cefn Onn.

Datganiad Iechyd, Tai a Lles

Rhodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Strategaeth Tai Caerdydd 2016-2021; y Tîm Cyngor Ariannol; Rhaglen Ailsefydlu Syriaid yng Nghaerdydd; y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Gweithio'n Lleol; Agenda Gwella Oedolion; a Chynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru Gyfan Mehefin 2016.

Croesawodd Aelodau'r diweddariad ar y rhaglen ailsefydlu; a phwysleision nhw'r angen am y gwasanaethau cymorth gan gynnwys iechyd; Iechyd Meddwl ' Chwnsela; mynediad at ganolfannau galw heibio a gwasanaethau banc bwyd i'w gwneud ar gael i'r teuluoedd hyn sy'n agored i niwed. Rhodd yr Aelod Cabinet sicrwydd i'r Cyngor fod gwaith yn cael ei gydlynu gyda grŵp arweinyddiaeth i sicrhau bod mynediad at adnoddau lleol a chapasiti proffesiynol ac arbenigol i gefnogi'r rhai hynny sy'n dod i Gaerdydd. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am Lynx House sy'n cynnig llety dros dro, ond deallodd fod materion wedi'u codi yn flaenorol wedi'u datrys.

Datganiad Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad

Rhodd yr Aelod Cabinet ddiweddariad ar Ystadau Strategol; Iechyd a diogelwch; Adnoddau Dynol; Prentisiaid Digidol TGCh;

Gwefan; a C2C.

Codwyd nifer o faterion yn ymwneud ag adborth a datrys galwadau wedi'u logio gan y cyhoedd gyda C2C. Soniodd yr Aelod Cabinet am fuddsoddiad mewn technoleg hunangymorth newydd yn delio gyda chwsmeriaid i gyflymu prosesau.

52 : HYSBYSIAD O GYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Bridges sydd wedi'i eilio gan y Cynghorydd Kelloway, wedi'i gyflwyno ac wedi'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Noda'r Cyngor y canlynol:

- costau anghyfartal o ddrud gwyliau yn ystod gwyliau traddodiadol yr ysgol, ac effaith y costau hyn ar deuluoedd yn ein dinas;

- Mae teuluoedd eisiau cadw gwyliau dynodedig yr ysgol, ond gall costau drud cael gwyliau yn ystod y cyfnodau hyn fod yn afresymol - yn golygu bod teuluoedd yn aml wedi dewis rhwng cael dim gwyliau o gwbl, neu gymryd disgyblion allan o'r ysgol yn ystod amser tymor;

- Gweithrediadau gan gynghorau eraill yn y DU i archwilio trefniadau tymor ysgol presennol gyda'r bwriad o fyrhau gwyliau'r haf er mwyn creu wythnos arall o wyliau yn rywle arall yng nghalendr yr ysgol pan all teuluoedd gael gwyliau mwy rhad.

Mae'r Cyngor yn penderfynu gofyn i'r Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc i ddadansoddi'r mater yn fanwl, ac argymell opsiynau posibl ar gyfer patrymau tymor yn y dyfodol i'r Cabinet eu hystyried, cyn etholiadau lleol ym mis Mai 2017.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod un newid i Gynnig 1 wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Weaver a'i eilio gan y Cynghorydd Mitchell

- Ar ôl *'Mae'r Cyngor yn penderfynu gofyn i'* rhoi'r geiriau 'Aelodau'r';

- Ar ôl y geiriau *'Pwyllgor i'* ychwanegu y geiriau 'ystyried, yn rhan o gynllunio eu gwaith ar gyfer y dyfodol, a hoffent'

- Dileu'r holl eiriau ar ôl y gair cyflwyno.

<u>Byddai'r Hysbysiad o Gynnig fel y Diwygiwyd yn dweud:</u>

Noda'r Cyngor y canlynol:

- costau anghyfartal o ddrud gwyliau yn ystod gwyliau traddodiadol yr ysgol, ac effaith y costau hyn ar deuluoedd yn ein dinas;

- Mae teuluoedd eisiau cadw gwyliau dynodedig yr ysgol, ond gall costau drud cael gwyliau yn ystod y cyfnodau hyn fod yn afresymol - yn golygu bod teuluoedd yn aml wedi dewis rhwng cael dim gwyliau o gwbl, neu gymryd disgyblion allan o'r ysgol yn ystod amser tymor;

- Gweithrediadau gan gynghorau eraill yn y DU i archwilio trefniadau tymor ysgol presennol gyda’r bwriad o fyrhau gwyliau’r haf er mwyn creu wythnos arall o wyliau yn rywle arall yng nghalendr yr ysgol pan all teuluoedd gael gwyliau mwy rhad.

Mae’r Cyngor yn penderfynu gofyn i Aelodau Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc ystyried, yn rhan o gynllunio eu gwaith ar gyfer y dyfodol, a hoffent ddadansoddi’r mater hwn yn fanwl.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y cynnig.

Ar ôl y dadl, bu pleidlais ar y newid wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Weaver.

**DERBYNIWYD** y newid

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Weaver fel cynigiwr y cynnig wedi'i ddiwygio i roi’r hawl i ymateb cyn pleidleisio ar y cynnig wedi’i ddiwygio.

Pleidleisiwyd ar y Cynnig.

**DERBYNIWYD** y Cynnig fel a ganlyn:

Noda’r Cyngor y canlynol:

- costau anghyfartal o ddrud gwyliau yn ystod gwyliau traddodiadol yr ysgol, ac effaith y costau hyn ar deuluoedd yn ein dinas;

- Mae teuluoedd eisiau cadw gwyliau dynodedig yr ysgol, ond gall costau drud cael gwyliau yn ystod y cyfnodau hyn fod yn afresymol - yn golygu bod teuluoedd yn aml wedi dewis rhwng cael dim gwyliau o gwbl, neu gymryd disgyblion allan o'r ysgol yn ystod amser tymor;

- Gweithrediadau gan gynghorau eraill yn y DU i archwilio trefniadau tymor ysgol presennol gyda’r bwriad o fyrhau gwyliau’r haf er mwyn creu wythnos arall o wyliau yn rywle arall yng nghalendr yr ysgol pan all teuluoedd gael gwyliau mwy rhad.

Mae’r Cyngor yn penderfynu gofyn i Aelodau Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc ystyried, yn rhan o gynllunio eu gwaith ar gyfer y dyfodol, a hoffent ddadansoddi’r mater hwn yn fanwl.

53 : HYSBYSIAD O GYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Michael sydd wedi'i eilio gan y Cynghorydd Ben Thomas, wedi'i gyflwyno ac wedi'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn

- yn cydnabod y pleidleisiodd 60% o bobl yng Nghaerdydd i aros yn rhan o'r UE er y pleidleisiodd Cymru a Lloegr i adael yr UE.

- yn cydnabod y budd enfawr, yn gymdeithasol ac yn economaidd, y mae bod yn rhan o'r UE wedi dod i Gaerdydd.

- yn nodi bod Caerdydd yn aros yn brifddinas Ewropeaidd groesawgar a chynhwysfawr sy'n edrych i'r dyfodol.

Felly mae'r Cyngor hwn

- yn galw ar y Cyngor hwn i barhau i adeiladu perthnasoedd gyda chyfatebwyr Ewropeaidd, i feithrin y cydweithrediad a'r cryfder sy'n dod o weithio gyda'n cymdogion agosaf.

- yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu i Stuttgart a Nantes i'w sicrhau ein bod yn parhau i ymrwymo iddynt fel ein chwaer-ddinasoedd Ewropeaidd.

- yn galw ar y Prif Weinidog i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y cynrychiolir Llywodraeth Leol Cymru yn llawn mewn unrhyw drafodaethau UE ynghylch ein perthynas yn y dyfodol gyda'r UE fel na effeithir ar Gaerdydd yn wael.

Dywedodd yr Arglwydd Faer nad oedd dim newidiadau i'r cynnig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y cynnig.

Ar ôl y ddadl, bu pleidlais ar Gynnig 2 wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Michael.

**DERBYNIWYD** y Cynnig fel a ganlyn: - **.**

Mae'r Cyngor hwn

- yn cydnabod y pleidleisiodd 60% o bobl yng Nghaerdydd i aros yn rhan o'r UE er y pleidleisiodd Cymru a Lloegr i adael yr UE.

- yn cydnabod y budd enfawr, yn gymdeithasol ac yn economaidd, y mae bod yn rhan o'r UE wedi dod i Gaerdydd.

- yn nodi bod Caerdydd yn aros yn brifddinas Ewropeaidd groesawgar a chynhwysfawr sy'n edrych i'r dyfodol.

Felly mae'r Cyngor hwn

- yn galw ar y Cyngor hwn i barhau i adeiladu perthnasoedd gyda chyfatebwyr Ewropeaidd, i feithrin y cydweithrediad a’r cryfder sy’n dod o weithio gyda’n cymdogion agosaf.

- yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu i Stuttgart a Nantes i'w sicrhau ein bod yn parhau i ymrwymo iddynt fel ein chwaer-ddinasoedd Ewropeaidd.

- yn galw ar y Prif Weinidog i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y cynrychiolir Llywodraeth Leol Cymru yn llawn mewn unrhyw drafodaethau UE ynghylch ein perthynas yn y dyfodol gyda’r UE fel na effeithir ar Gaerdydd yn wael.

54 : CWESTIYNAU LLAFAR

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Margaret Jones*

Faint o sylwadau rydych wedi’u cael gan staff yr Adran Glanhau yn y 12 mis diwethaf yn cwyno nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i gadw strydoedd y ddinas yn lan?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Nid wyf wedi derbyn dim sylwadau gan staff glanhau a byddwn yn disgwyl i Swyddogion y Cyngor godi pryderon a allai fod ganddynt trwy'r sianeli arferol.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Margaret Jones*

O ystyried y sbwriel sydd wedi cyrraedd lefelau argyfwng mewn rhai ardaloedd, tybio a ddylech chi fod yn cael sgwrs gyda’ch gweithwyr. Mae'n glir na allant ymdopi a rhaid iddynt gael eu digalonni pan ydynt yn clywed beirniadaeth gan bob chwarter.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Meddyliais mai a ydw wedi derbyn unrhyw sylwadau (nad wyf wedi) oedd y cwestiwn.

Y ffaith amdani yw, yn fy marn i, nad yw’r mater ynghylch sbwriel yn waeth nag y mae wedi bod o’r blaen – mae ond yn cael mwy o gyhoeddusrwydd trwy gyfryngau cymdeithasol  Ac rydym yn gwneud popeth y gallwn i drio lleihau’r problemau.

Mae adnoddau ychwanegol wedi’u defnyddio, diolch i gyllideb y llynedd, felly mae gennym dimau glanhau ychwanegol a thîm ychwanegol i orfodi, y mae’r wrthblaid yn awyddus i ni ei wneud.  Mae'r tîm hwnnw eisoes wedi bod yn llwyddiannus o ran cyflwyno dirwyon.

Fel, at ei gilydd, rwyf yn meddwl ein bod yn gwneud popeth y gallwn. Ond rwy’n ailadrodd y pwynt a wnaethpwyd yn gynharach gan gydweithiwr:

Nid y Cyngor sy’n taflu’r sbwriel, ond y trigolion.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Rwy'n falch o'ch clywed yn dweud bod mwy o orfodi. Fel rydych yn gwybod, mae'r Theori Ffenestri wedi'u Torri yn rhagweld y bydd ardaloedd wedi'u cynnal yn dda yn destun llai o sbwriel wedi'i daflu'n bwrpasol a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol

Rwyf yn meddwl bod eich ymagwedd eithaf gwangalon o ran chi'n dweud mai'r cyhoedd sydd ar fae. Pe bai gennym fwy o finiau ar gyfer sbwriel, a phe baen nhw'n cael eu glanhau'n rheolaidd, byddai llai o bobl yn taflu sbwriel oherwydd os byddwch chi'n ei gadw'n lan, bydd pobl yn cadw eu strydoedd yn lan. Nid yw'n fater o ddweud "wel, nid ni sydd ar fae." Chi sydd ar fae - mae dyletswydd statudol arnoch i gadw'r strydoedd yn lan.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Mae'n fy synnu bod un Cynghorydd ar ôl y llall am siarad am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Rydym i gyd yn rhan o'r Cyngor; mae Talwyr y Dreth Gyngor yn rhan o'r Cyngor. Mae'n rhaid i Dalwyr y Dreth Gyngor dalu miloedd o bunnoedd i alluogi'r Cyngor i lanhau'r strydoedd.

Ydych chi'n dweud wrthyf, felly, na ddylai trigolion gymryd cyfrifoldeb dros daflu sbwriel?  Pan siaradwch â mi am bobl yn rhoi sbwriel mewn biniau, y ffaith amdani yw pan nad oes bin ar gael, rwy'n mynd â sbwriel adref gyda fi. Nid wyf yn ei daflu ar y llawr.

Yr hyn rwyf yn ei ddweud yw bod y Cyngor, fel y cytunwyd yn y gyllideb y llynedd, wedi defnyddio adnodd ychwanegol. Rydym wedi rhoi tîm ychwanegol ar waith sy'n bwysig iawn a meddyliais roedd yr wrthblaid yn awyddus i weld hyn ddigwydd. Ers 1 Mehefin pan roddwyd y tîm ar waith, mae nifer mawr o ddirwyon eisoes wedi'u cyflwyno.

Byddwn yn parhau ar y llwybr hwnnw. Byddwn yn parhau i drio gwella glanhau strydoedd.

Ond, mae angen i drigolion chwarae eu rhan hefyd.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Walker*

Bydd yr Arweinydd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gyngor Caerffili i adolygu ei CDLl ar ôl methu â chyflawni llawer o'i ganlyniadau y bwriedir. Bydd yr arweinydd hefyd yn ymwybodol o'r nifer cyfyngedig o geisiadau cynllunio wedi'u derbyn (a'r lefel isel o waith adeiladu tai wedi'u cynllunio sy'n rhan ohonynt ar hyn o bryd) mewn ymateb i CDLl Caerdydd a alluogodd ddatblygu ardaloedd enfawr o'n tir maes glas. Gallai'r diffyg hwn yn yr ymatebion gan ddatblygwyr arwain cyn bo hir at Lywodraeth Cymru yn adolygu CDLl y ddinas hon, rhywbeth y byddai llawer o'r dinasyddion a'r cymunedau y effeithir arnynt yn croesawu.

Gyda golwg ar y gefnogaeth eang yn Ne-ddwyrain Cymru ar gyfer agwedd dinas-ranbarth, nid yw'n amser cynnwys datblygu tai yn rhan o Strategaeth Dinas-ranbarth Caerdydd ac a fydd yr Arweinydd yn cynnig menter o'r fath ar y cyfle cyntaf posibl? Nid yw'n aml y mae'r lle y mae pobl yn dewis byw a gweithio yn cyd-fynd â'r terfynau awdurdod lleol artiffisial sydd wedi'u creu.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Sefydlodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswydd statudol i ddarparu datblygu strategol ledled Cymru ac rydym wedi ymrwymo'n llawr i ymgymryd â phroses cynllun datblygu strategol newydd ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Ystyrir y gwaith hwn hefyd trwy strwythurau llywodraethu cyffredin Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, a fydd yn ceisio cydlynu gweithgaredd yn y deg awdurdod lleol.

Fodd bynnag, bydd nifer o flynyddoedd eto cyn rhoddir cynllun datblygu strategol wedi'i fabwysiadu ar waith a, yn y cyfamser, mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i ddatblygu'r CDLl wedi'i fabwysiadu ac ateb yr angen brys wedi'i dystio am dai ledled y ddinas.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Walker*

Nid fy nghwestiwn i oedd hwnnw mewn gwirionedd. Roeddwn yn gofyn i chi am agwedd dinas-ranbarth De-ddwyrain Cymru ac rwy'n gwybod y mae'n rhaid i chi fod â chynllun - mae cynllun gennych, ond oni bai bod pobl yn cyflwyno'r ceisiadau cynllunio, mae'r holl gynllun yn ddiwerth, sy'n debyg i'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerffili, sydd fy rheswm dros sôn am Gaerffili a pham fo Llywodraeth Cymru yn cwestiynu Caerffili ac wedi gofyn iddo adolygu ei gynllun.  Os na chawn geisiadau ac adeiladu ar ein cynllun, bydd yr un peth yn digwydd i ni.

Byddai wedi bod yn fwy call i edrych ar hyn ar lefel strategol ledled de-ddwyrain Cymru. Rydych wedi ymrwymo i'r agwedd dinas-ranbarth. Ac rydym wedi ymrwymo hefyd a beth am gynnwys datblygu tai yn rhan o hyn?

Mae pobl sy'n byw yng Nghaerffili yn gweithio yng Nghaerdydd. Roeddwn i arfer gwneud felly fy hun. Ac i'r gwrthwyneb. Mae eithaf hawdd.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Rwy'n meddwl yr hyn roeddwn yn trio ei ddweud - efallai mewn ffordd fformiwläig iawn - oedd bod cynlluniau datblygu strategol wedi'u cynllunio ar gyfer y rhanbarth cyfan. Dyna ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei datblygu. Ond mae'n fater amseru o ran pryd fydd y rhai hynny yn cael eu rhoi ar waith.

Ar hyn o bryd, mae gennym awdurdodau lleol gwahanol sydd ar gamau gwahanol o ddatblygu eu CDLlau. Sonioch am Gaerffili ac roedd pryderon am ei CDLl ei hun. Rydym wedi rhoi llawer o'n hamser i greu CDLl y dadleuon ni amdano am amser hir yma. Roedd llawer o waith yn rhan o hynny. Cydnabyddiaeth go iawn o'r uwchgynllunio wedi'i wneud a'r cynllunio trafnidiaeth.

Ond rwy'n cytuno'n llwyr â'ch pwynt sef os hoffen ni i ardal economaidd weithredol y ddinas-ranbarth ehangach weithio'n effeithiol wrth symud ymlaen, mae angen i ni sicrhau bod y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud - boed yn seilwaith trafnidiaeth, pennu safleoedd cyflogaeth, neu dai newydd - wedi'u cynllunio a'u hystyried hyd at y pen draw ar lefel rhanbarthol ac rwy'n meddwl bod hwnnw'n rhywbeth rydym yn cymryd camau tuag ato.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Ali*

Faint o arwyddion anghyfreithlon “Pleidleisio Gadael” a “Pleidleisio Aros” a gafodd eu symud o’r briffordd gyhoeddus a safleoedd eraill yn ystod ymgyrch Refferendwm yr UE, a faint oedd yn rhaid i Gyngor y Ddinas dalu i wneud felly?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol De’Ath*

Mae oddeutu 100 o arwyddion yn ymwneud â Brexit wedi'u symud yng Nghaerdydd yn yr wythnosau diweddar ac rydym yn amcangyfrif bod hyn wedi costio'r Cyngor rhwng £2000 a £3000. Ac yn amlwg, byddwn yn gwneud popeth y gallwn i adennill yr arian hwnnw ar gyfer talwyr y Dreth Gyngor.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Ali*

Faint o’r arian hwn wedi’i adennill?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol De’Ath*

Rwyf wedi gofyn i Swyddogion y Cyngor am y ffigur hwnnw ac mae’n ddrwg gennyf ddweud eu bod yn dal i gasglu’r wybodaeth honno ond rwy’n fwy na hapus i gyflwyno’r wybodaeth honno’n ysgrifenedig.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorwyr Sirol Chaundy*

Tra bod cyfle i fi ofyn - mae’n debygol na fyddwch yn gwybod, y Cynghorydd De’Ath, a yw’n fater cyfreithiol neu beidio ond 24 awr cyn y bleidlais, bu llawer o'r baneri "pleidleisio gadael" hyn yn ymddangos ar bontydd cerdded cyhoeddus ac mewn llawer math o fannau cyhoeddus. Ysgrifennaf at y Comisiwn Etholiadol yn cwyno am hyn ac nid wyf wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.

Allwch gadarnhau a yw’n gyfreithlon neu beidio i ludo baneri yn y lleoedd hyn?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol De’Ath*

Nid allaf sylwi ar leoliadau unigol ond nid yw’n gyfreithlon i godi beth bynnag yr hoffech yn yr ardal gyhoeddus. Felly nad ydy.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Nodwch y broses o waredu gwastraff o rannau preifat o lonydd cefn (e.e. mynedfeydd cilfachog i fodurdai ayyb.) ar ôl cael ei dipio’n anghyfreithlon; nodwch hefyd y gwahaniaeth mewn amserlenni ar gyfer gwaredu rhwng y math hwn o wastraff a sbwriel sydd wedi’i dipio’n anghyfreithlon ar y briffordd gyhoeddus.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Pum diwrnod gwaith yw’r targed ar gyfer gwaredu llwythi gwastraff neu dipio anghyfreithlon (gan gynnwys asbestos) ar briffordd fabwysiedig.

Yn 2015/16, cliriwyd 97.9% o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi’u hadrodd o fewn y cyfnod hwnnw.

Ni symudir gwastraff ar dir preifat yn awtomatig gan y Cyngor. Anfonir hysbysiad i berchennog y tir yn gyntaf gydag amserlen benodol i'w symud, sy'n dibynnu ar y ddeddfwriaeth benodol sy'n cael ei defnyddio.

Pan na symudir gwastraff o fewn yr amserlen, bydd y Cyngor yn symud y gwastraff a cheisio adennill y gost o wneud felly. Os na chaiff costau eu hadennill o ganlyniad i fethiant perchennog y tir, caiff achos ei gyflwyno yn llys yr ynadon er mwyn adennill y costau.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Y rheswm dros godi hyn yw fy mod wedi cael hanner dwsin o ddigwyddiadau yn yr ychydig fisoedd diwethaf pan fod sbwriel wedi'i ddympio yng nghanol lôn gefn, yn rhwystro'r briffordd ac o ganlyniad mae gyrrwr neu breswylydd wedi cymryd arnynt eu hunain i symud y gwastraff hwnnw o ffordd cerbydau a'i roi ar ochr y lôn.

Wrth gwrs, os yw ar dir preifat wedyn, bydd y Cyngor yn dweud "nid ein problem ni - cyfrifoldeb perchennog y tir yw hi" ac felly byddaf yn dweud wrth y Cyngor "Glanhewch hyn", byddant yn ysgrifennu at berchennog y tir, byddwn yn aros am ychydig wythnos ac yna gallai gael ei symud neu ni allai gael ei symud.

Fy mhryder i yw bod hyn yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i osgoi casglu sbwriel sydd wedi'i ddympio ar y briffordd ac sydd ond wedi cael ei symud allan o'r ffordd er mwyn galluogi cerbydau i basio ac i drio cael rhywun arall i dalu amdano, er nad perchennog y tir sydd ar fae oherwydd ni chafodd y sbwriel ei ddympio ar ei dir yn wreiddiol, ac nid y preswylydd druan y mae rhaid iddo gerdded heibio llwythi o sbwriel bob dydd sydd ar fae.

Nid yw hyn yn debyg i'r cwynion rydych wedi'u cael yn gynharach. Mae hyn yn ymwneud â'r broses ac a oes diffyg yn y system y mae angen ymchwilio iddo?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rwy'n deall y rhwystredigaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn rydych yn ei ddweud, nid yw'n ymwneud â gwrthod bod yn gyfrifol, mae'n ymwneud â chyfreithlondeb. Pe bai'r Cyngor yn mynd ar y tir hwnnw a symud rhywbeth, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, heb ganiatâd perchennog y tir, gallai gael ei herio yn y llysoedd am symud stwff y gallai perchennog y tir ddweud "Roeddwn yn ei roi yno oherwydd fy eiddo i oedd e ac roeddwn am ei gael e yno" amdano.

Felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus gyda'r hyn rydym yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni fynd trwy'r broses. Ni allaf wneud beth bynnag yr hoffwn gyda'r mater hwn - dywedir wrthyf beth gallaf ei wneud yn gyfreithlon a beth na allaf ei wneud ac mae'n rhaid i mi ddilyn gweithdrefn yn ofalus iawn. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ufuddhau â'r gyfraith.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Mae biniau sy'n gorlifo, sbwriel ar y strydoedd ac mewn parciau yn difetha'r Ddinas. Mae'n amlwg yn waeth pan fo'r tywydd yn braf. Faint o erlyniadau a dirwyon cosb benodedig wedi'u cyflwyno am sbwriel yn y flwyddyn ddiwethaf?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Yn 2015/16, cyflwynwyd 518 o Hysbysiadau Cosb Benodedig am droseddau sbwriel ac bu 8 erlyniad.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Ydych chi'n ymwybodol, yn 2014 yn unig, y cyflwynodd Abertawe 3000 o ddirwyon gwerth £25m ac nad yw ein cofnod yn cymharu'n dda iawn ag un Abertawe?

Ac rwy'n ailadrodd bod Cadwch Gymru'n Daclus yn ffafrio cyflwyno dirwyon a gosod cyfleusterau newydd ar gyfer gwaredu sbwriel ac mae gorfodi effeithiol yn rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth a helpu i newid ymddygiad.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rwy'n cytuno â chi'n llwyr ar hynny, a dyna ein rheswm dros roi tîm gorfodi ychwanegol ar waith. Fy mwriad, os bydd y tîm gorfodi hwnnw'n cadw'i ben, fel y mae'n ymddangos i fod yn ei wneud hyd yn hyn, fyddai rhoi ail dîm ar waith er mwyn cyflawni'r gwaith hwnnw.  Ac felly, yr hyn rydym am ei wneud yw trosglwyddo'r neges yn glir a byddaf yn ei dweud yma nawr: Nid yw'n dderbyniol taflu sbwriel.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Jonathan Evans*

Gyda golwg ar yr hyn a ddywedoch am ymddygiad, oes modd efallai o ddatblygu ymgyrch ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cyhoeddus yn fwy cadarn gyda'n partneriaid, fel Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rydych yn amlwg wedi darllen fy meddwl oherwydd dyna yn union beth rydym yn ei wneud. Mae trafodaethau gyda'n tîm yng Nghyfathrebiadau  ar y gweill ynghylch gweithredu ymgyrch iawn.

Mae cyfarfod gyda Cadwch Gymru'n Daclus a Grŵp Afonydd Caerdydd hefyd yn fwy na thebyg eisoes wedi'i drefnu oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb ac sy'n awyddus i drio glanhau'r ddinas yn gweithio gyda'i gilydd.

Nid oes pwynt i ni weithio ar wahân felly rwy'n awyddus i gael dull wedi'i gydlynu ar gyfer hyn ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cael un a gobeithio mewn mis neu ddau, byddwch yn gweld tystiolaeth o hynny.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Beth yw statws diweddaraf y cynigion arfaethedig i gynnal Gemau'r Gymanwlad a Phrifddinas Diwylliant Ewrop ar ôl y bleidlais i adael yr UE?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Economi a Seilwaith, Ken Skates AC, yn gynharach yr wythnos hon, ar ôl ystyried gwaith dichonolrwydd manwl ac o ystyried

yr ansicrwydd ariannol cyfredol, y daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad yw mewn sefyllfa i gyflwyno cynnig ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn 2026.

Ond rydym wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio ein strategaeth digwyddiadau mawr newydd ar gyfer Caerdydd a heb os nodir cyfleoedd newydd eraill ar gyfer ddigwyddiadau mawr o ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

Byddwn hefyd yn archwilio'r astudiaeth o ddichonoldeb yn y man i ddeall sut y gallai hynny effeithio ar y strategaeth.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Clark*

A fydd Gorsaf Fysus newydd Caerdydd wedi'i adeiladu ac yn llawn weithredol erbyn mis Rhagfyr 2017?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Mae cynlluniau ar gyfer y gyfnewidfa drafnidiaeth newydd yn mynd rhagddynt yn dda. Mae'r safle yn cael ei ddymchwel ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar adeiladu'r gyfnewidfa drafnidiaeth fel y cynlluniwyd.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Clark*

Gan y dywedoch fod popeth yn mynd yn ôl yr amserlen, rwy'n cymryd eich bod yn golygu y bydd yn barod erbyn mis Rhagfyr 2017? Dyna beth ddywedoch, ife?

Disgwyliwyd y byddai Tŷ Marland a'r maes parcio NCP yn cael eu dymchwel rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016. Ond, pan es i heibio yno wythnos yn ôl, nid yw gwaith i'w dymchwel wedi dechrau eto. Felly pryd rydych yn disgwyl i'r adeiladau hynny gael eu dymchwel yn llwyr? Gan gadw mewn cof bod mis Awst yn dechrau'r wythnos nesaf, ydych chi wir yn meddwl na fydd yr oedi hynny yn effeithio ar ddyddiad cwblhau'r orsaf fysus sef mis Rhagfyr 2017?

Hefyd, dywedwyd wrthym y caiff y cais cynllunio ar gyfer y orsaf fysus newydd ei gyflwyno yn Haf 2016. Nid wyf yn cofio ei weld eto. Allech chi gadarnhau pryd rydych yn disgwyl i hyn gael ei gyflwyno?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig tynnu sylw at y ffaith bod llawer o waith eisoes wedi bod yn cael ei wneud wrth y Sgwâr Canolog a Thŷ Marland. Mae gwaith parhaol yn cael ei wneud yn fewnol ac i waredu asbestos y tu mewn i'r adeilad hwnnw. Mae'n rhaid gwaredu'r asbestos. Ac mae'r holl waith yn barhaol. Rydym yn gwneud y gwaith, er nad yw'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno eto gan ein bod newydd brynu'r tir, sydd wedi costio oddeutu £15m.  Mae gwaith ar y gweill.

A, fel y dywedais yn glir iawn, a byddaf yn ei ailadrodd rhag ofyn i chi heb ei glywed, mae'r safle yn cael ei ddymchwel ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar adeiladu'r gyfnewidfa drafnidiaeth newydd fel y cynlluniwyd. Ac mae'r adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron y cabinet cyn bo hir.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Groves*

A gaiff Orsaf fysus newydd Caerdydd ei dylunio, ei hadeiladu a'i threfnu i greu a hwyluso'r defnydd mwyaf ar gyfer namau pobl, gan ystyried a chofleidio'r namau amrywiol ac eang y gallai fod gan bobl?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Yn bendant, mae hyn yn hollbwysig oherwydd, os ydyn ni'n mynd i siarad am gyfnewidfa fysus modern, yna mae hefyd yn rhaid i ni gael y mathau hynny o gyfleusterau. Felly caiff yw'r ateb.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Hill-John*

Mae cyflwr llwybrau cerdded ledled Caerdydd yn alaethus. Mae meiri a chwyn wedi gordyfu ac mae arwynebau wedi'u difrodi ac nid ydyn nhw'n addas i drigolion. Beth yw'r amserlen i arolygu a, yn bwysicach, yr amserlen i glirio ac atgyweirio'r hawliau tramwy cyhoeddus hyn?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Nid wyf yn cytuno â'ch datganiad cyffredinol am lwybrau cerdded y ddinas fod mewn "cyflwr alaethus".

Archwilir troedffyrdd bob 1-, 3-, 6-, neu 12- mis yn dibynnu ar hierarchaeth y droedffordd. Caiff unrhyw ddiffygion a ddeuir o hyd iddynt eu hatgyweirio o fewn amserlen sy'n briodol i'r diffyg wedi'i gofnodi.

O ran twf chwyn, trinnir strydoedd preswyl a phrif lwybrau dwywaith y flwyddyn, gyda gwaith yn cael ei wneud o fis Mai i fis Medi. Trinnir lonydd cefn unwaith y flwyddyn.

Ymgymerir â rhaglen dreigl o archwiliadau ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a rhoddir blaenoriaeth i glirio llwybrau strategol trwy fisoedd yr haf.

Os oes gennych bryderon am unrhyw lwybrau cerdded penodol, rhowch wybod i mi a byddaf yn gofyn i swyddogion edrych i mewn iddynt.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Woodman*

Mewn perthynas â chwyn, sylwaf i chi ddweud *"dwywaith y flwyddyn, caiff chwyn ar lwybrau strategol eu chwistrellu."* Wel, yn fy ward i, mae gennym nifer o lwybrau sydd, yn ôl honiadau, wedi'u chwistrellu dwywaith y flwyddyn ac mae'r chwyn hyd at uchder bron. Ac, ar un adeg, gofynnais i swyddogion *"yn lle chwistrellu, oherwydd nad yw'n lladd y chwyn, a fyddwch yn eu tynnu?"* A gwnaethon nhw dorri'r chwyn ac roedd golwg llawer gwell ar y llwybr.

Felly nid yw ein system ar gyfer delio â chwyn yn gweithio, yn enwedig yn fy ward a gall fy nghydweithwyr gadarnhau hynny. Pan ysgrifennwn ni i mewn, dywedir wrthym y cânt eu gwneud dwywaith y flwyddyn, ond mae'r chwyn dal yno.

Felly, pan ydynt yn dod yn broblem, os ydym yn ysgrifennu atoch i ddweud "wel rydym wedi'u chwistrellu dwywaith eleni," a fyddwch nawr yn tynnu'r chwyn hyn, yn enwedig cyn iddynt hadu? Yna, efallai y bydd gennym gyfle teg.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Yr hyn rydym yn meddwl y mae angen ei gael yn gwbl glir: Mae clirio chwyn yn dod dan y portffolio Amgylcheddol. Mae'r briffordd yn dod dan fy maes i. Ond rwy'n deall y pwynt rydych yn ei wneud.

Yr hyn sy'n digwydd weithiau, yn anffodus, gall bwrw glaw ar ôl chwistrellu'r chwyn achosi pob math o broblemau hefyd. Dyma pam rydym yn drio ei wneud yn ystod misoedd yr haf, i drio osgoi'r glaw ayyb. Ond weithiau mae hynny wedi digwydd. Nid wyf yn dweud mai hynny yw'r achos yn eich ward chi ond, yn sicr, os yw'r mathau o faterion hynny yn codi rwy'n meddwl y dylech yn sicr ysgrifennu at yr Aelod Cabinet, Amgylchedd neu Swyddfa'r Cabinet a byddwn yn bendant ymchwilio iddo.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Ali*

A fydd yr Arweinydd yn rhoi diweddariad ar baratoadau ar gyfer rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr 2017 yng Nghaerdydd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Mae'r tîm gweinyddu'n falch o allu helpu sicrhau rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr y flwyddyn nesaf ar gyfer Caerdydd a Chymru a gallaf gadarnhau bod paratoadau cychwynnol yn mynd rhagddynt yn dda ar gyfer y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd y flwyddyn nesaf.

Mae rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn dasg fawr ar gyfer y ddinas o ystyried ei graddfa ac yn wir ei chyrraedd byd-eang Rydym yn disgwyl cynulleidfa teledu o oddeutu 200 miliwn o bobl mewn dros 200 o wledydd a disgwylir i hyn roi hwb gwerth £43 miliwn i economi Cymru.
Mae bwrdd llywio gweithredol wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys yr holl brif bartneriaid cyflawni a disgwylir i ddau gyfarfod safle gyda chynrychiolwyr UEFA gael eu cynnal ym mis Awst a mis Medi.
Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, rwy'n parhau i fod yn hyderus, ar sail ein profiad yn y gorffennol, fod gan Gaerdydd bopeth i greu profiad croesawgar, cofiadwy ac ardderchog ar gyfer y cefnogwyr a'r chwaraewyr y flwyddyn nesaf.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Ali*

Byddaf yn annog yr arweinydd i drefnu casgliad bwced ar gyfer elusen yr Arglwydd Faer ar gyfer y digwyddiad hwn.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Yn amlwg mae llawer o gyfyngiadau o ran y mathau hyn o ddigwyddiadau ond gallwch warantu y byddwn yn edrych ar bob ffordd y gallwn – yn ychwanegu at bwynt y Cynghorydd Woodman yn gynharach heno – i wneud popeth y gallwn i hybu elusen yr Arglwydd Faer. Bydd yn elusen wahanol ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn amlwg – cynhelir y digwyddiad ym mis Mehefin.

Ond mae hefyd cyfleoedd eraill i edrych ar etifeddiaeth y gemau hyn. Mae Ymddiriedolaeth UEFA yn bartner pwysig iawn yn hyn a byddwn yn edrych dros y

flwyddyn nesaf ar sut y gallwn ni sicrhau y delir etifeddiaeth chwaraeon a lles yn llwyr yn rhan o'r digwyddiad y flwyddyn nesaf.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Bowden*

Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i adolygu ei bolisi ar barcio i breswylwyr yn unig yng Nghaerdydd ac os yw'n berthnasol, beth yw'r amserlen?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Adolygwyd strategaeth parcio'r Cyngor a'i bolisïau cysylltiedig yn hydref 2015 a buon nhw'n destun ymgynghoriad Aelodau a chyhoeddus.

Cynhwyswyd polisïau parcio i breswylwyr yn yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnig dull ardal gyfan o greu cynlluniau parcio i breswylwyr. Caiff y polisïau newydd eu cymeradwyo a'u cyhoeddi'r haf hwn.

Gwneir yr adolygiad nesaf ar adeg briodol yn y dyfodol.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Bowden*

Ymgynghorir ag Aelodau Ward Lleol ar unrhyw newidiadau i'r strategaeth parcio i breswylwyr yn unig o fewn strategaeth y ddinas gyfan.

Gan fy mod yn edrych ar yr adroddiad gan Graffu, lle mae'n cyfeirio at barthau byffer parcio a llacio arolygon, hoffwn gadarnhau ein bod ni i gyd yn y siambr hon yn gyfarwydd â beth yw'r cynnig neu'r polisïau nawr.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Fel sy'n digwydd gyda'r holl bethau hyn, ymgynghori yw'r hyn y byddwn yn ei wneud, yn sicr. Mae'n hollbwysig.

Mae'n rhaglen newydd y byddwn yn edrych arni, sy'n gynllun parcio preswyl 75% newydd. Yr hyn y bydden ni'n ei wneud yw dweud "nawr hon yw'r rhaglen newydd" ond un peth rwyf wedi'i wneud yn gwbl glir ac rwyf wedi dweud y mae angen i ni ei gael yw cefnogaeth Aelodau. Os nad oes cefnogaeth gan Aelodau, ni ddylid cyflwyno'r rhaglen newydd oherwydd nid oes pwynt ei wneud oni bai bod yr Aelodau ei eisiau.

Felly pan fydd yr ardal honno yn codi eto, a gallai fod pa bynnag ardal yng Nghaerdydd, bydd yr Aelodau'n rhan ohoni.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Gan ychwanegu at y pwynt hwnnw am gefnogaeth gan Aelodau: Yn glir, yn y wardiau lle bo cefnogaeth gref gan Aelodau a chefnogaeth gref gan breswylwyr, byddai o gymorth pe gallai'r cynlluniau gael eu cyflymu. Felly, rydych yn gwybod o ganlyniad i'r sgyrsiau hyn am ran o ward Gabalfa lle y croesawir mwy o fannau parcio i breswylwyr yn unig ac rydych wedi dweud y bydd hynny yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Felly, o'ch ateb cynharach, rwy'n tybio felly y byddwn yn gweld cynlluniau manwl ar hynny cyn diwedd y flwyddyn. Felly, gan wybod sut mae'r amserlenni hynny yn dueddol o lithro yn y Cyngor, tybiaf a allech chi fod yn fwy penodol am bryd byddwn yn gweld cynigion manwl.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Fel y dywedais, rhaglen newydd yw hi. Mae'n rhaglen enfawr. Bydd y polisi yn dod i mewn cyn bo hir yn y dyfodol agos. Mae'r 75% yn rhestru rhannau mawr o Gaerdydd ac edrychir ar yr holl ardaloedd. Ac yn amlwg, un o'r ardaloedd y edrychir arni yn gyntaf yw canol y ddinas ac o gwmpas cyffiniau canol y ddinas.

Nawr yn ddelfrydol, pe bai gennym gyflenwad diddiwedd o arian, gallen ni ddweud "reit, unrhyw Gynghorydd sydd ei eisiau, gadawn i ni ddechrau'i weithredu'n syth." Nid wyf mewn sefyllfa i wneud felly. A'r cyfan y gallaf ei ddweud yw bod rhaglen a rhoddir gwybod i Aelodau am bryd y caiff ei gweithredu.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Sanders*

A allai'r Aelod Cabinet amlinellu pryd ganiatawyd Traeth Bae Caerdydd a digwyddiadau'r Bae eraill eleni, pa rwymedigaethau y'u ceisiodd, pa rwymedigaethau y'u cafodd, a beth mae'n credu y caiff ei ddarparu er mwyn sicrhau bod gan blant sy'n anabl yn gorfforol fynediad at yr un lefel o atyniadau â phlant galluog?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bradbury*

Gwnaethpwyd y Cyngor gytundeb prydles ar gyfer Traeth Bae Caerdydd eleni â Sayers Amusements Ltd ar 7 Gorffennaf 2016.

Rwy'n ymwybodol bod y gweithredwr wedi gwneud nifer o welliannau yn ymwneud yn benodol â mynediad dros flynyddoedd diweddar, gan gynnwys cynnig rampiau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol i'r maes chwarae tywod a phwll padlo bas, yn ogystal â deciau wedi'u hymestyn ar draws y rhan fwyaf o'r safle i osgoi'r angen am rampiau.

Mae'n glir eich bod yn mynd i gael awgrymiadau o ran beth sydd wedi digwydd yma ar gyfer gwella mynediad yn fwy. Os ydych yn gallu eu gwneud, rwy'n hyderus y byddai'r contractwr yn gallu trio rhoi'r gwelliannau hynny ar waith.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Sanders*

Rwy'n deall yn llwyr y mynediad at y digwyddiad penodol hwnnw ac i eraill ar gyfer unrhyw un sydd ag anabledd corfforol. Byddwn yn disgwyl hynny.

Roedd yn ymwneud yn fwy â phlant, mae trigolyn penodol yn fy ward sy'n pryderu'n fawr ac sydd wedi bod am nifer o flynyddoedd – ac wedi newydd fynd i'r ŵyl bwyd, gallaf weld beth sydd ganddi – nid oes gweithgareddau penodol i blant mewn cadeiriau olwyn gymryd rhan ynddynt Felly er y gellir eu gwthio o gwmpas – nid yw hynny yn swnio'n wych, ond rydych yn gwybod beth rwy'n golygu – gwylwyr ydyn nhw. Ni allant gymryd rhan mewn pethau.

Rwy'n gwybod nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am y gweithgareddau eu hunain ond rwy'n awgrymu y gallen ni, fel Cyngor, ddod yn esiampl fel y gall y plant hynny a fyddai

wrth eu boddau o gymryd rhan mewn rhywbeth wneud rhywbeth. A byddwn yn gofyn i chi edrych ar hynny gyda threfnwyr y digwyddiadau hynny.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bradbury*

Rwy’n fwy na hapus i gwrdd â’ch etholwr, rwy’n meddwl fy mod yn ei adnabod ar ôl rhoi dau a dau at ei gilydd oherwydd rwy’n gwasanaethu ar gorff llywodraethu yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn gyda’r etholwr penodol hwnnw. Hapus i gwrdd â hi a chithau a’n tîm digwyddiadau, a drafododd y contract gyda Sayers, i weld sut gallwn ni fynd ag ef ymlaen?

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Beth yw effaith tebygol pleidlais Brexit ar metro de Cymru a pha gyfarfodydd rydych wedi’u cael gyda Llywodraeth Cymru ers y bleidlais i drafod y project?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Mae £734m wedi’i glustnodi’n benodol ar gyfer metro de Cymru yng nghytundeb Penawdau’r Telerau'r Fargen Ddinesig. Ond mae’n rhy fuan i gael gwybod yn sicr sut bydd y bleidlais Brexit yn effeithio ar yr arian gan Ewrop sy’n rhan o’r £734m.

Yn ddiweddar rwyf wedi cwrdd â Phrif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weithredwr Network Rail yn fwy diweddar i drafod y mater hwn a gwaith i ailddatblygu Gorsaf Caerdydd Canolog, a’r sicrwydd cadarnhaol wedi’i gael am weithredu'r project metro yn barhaol.
Mae’r Prif Weinidog wedi ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen gyda’r metro a disgwylir y gwobrwyo contractau cyflenwi seilwaith ar gyfer y project yng ngwanwyn 2018.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Rwy’n falch eich bod chi a Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda thrio sicrhau bod project metro de Cymru yn mynd yn ei flaen. Mae’n gwbl hanfodol ar gyfer y drafnidiaeth yn ein dinas a datblygu economaidd rhanbarth de Cymru.

Efallai y byddaf yn gofyn felly am y datblygiad sydd wedi bod o ran cael tir ar gyfer gorsafoedd newydd, yn enwedig, rwyf yn meddwl ei fod yn achos pryder. Byddwch wedi sylwi ar lefel plwyfol i mi gyflwyno deiseb ar ddechrau’r cyfarfod hwn am orsaf yn fy ward fy hun i wasanaethau Mynachdy a Thalybont, y mae gorsaf wedi’i nodi ar y map metro arfaethedig ar gyfer Gabalfa, a fyddai yn y safle hwn. Nid yr unig safle ar gyfer gorsaf newydd yw hwnnw ond yn glir mae un ymhlith nifer yn y ddinas.

Felly pa ddatblygiad sydd wedi bod o ran nodi tir ar gyfer gorsafoedd newydd a thrio symud ymlaen i gael y tir hwnnw?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bale*

Tan lofnodi Penawdau'r Telerau, project wedi’i yrru gan Lywodraeth Cymru oedd e. Ac ar yr adeg honno, ym mis Mawrth, gwnaethon ni sicrhau cytundeb i gyd-ddylunio’r metro i’r dyfodol.

Rydym yn dal i weithio ar hynny o ran manylion gyda Llywodraeth Cymru. Ond yr hyn rydym yn ei wneud yw dod â'r projectau ymhlith y 10 awdurdod lleol a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer yr arian seilwaith ynghyd yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau am yr hyn y gall strategaeth trafnidiaeth rhanbarthol fod yn y dyfodol, gan adeiladu ar y pwyntiau roedd y Cynghorydd Walker yn eu gwneud am gynllunio datblygu strategol mwy eang ar gyfer y rhanbarth hefyd.

Felly mae'r gwaith hwnnw'n mynd ymlaen ac rwy'n meddwl, eleni/yn gynnar y flwyddyn nesaf, y dylai fod gennym syniad a dealltwriaeth llawer gwell o'r projectau hynny wrth iddynt fynd ymlaen.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon yn fy ward, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig pellaf. Mae llawer o'r digwyddiadau yn glir ar lefel masnachol, gan gynnwys tipio gwastraff adeiladwyr, gwelyau difán, matresi a bagiau ailgylchu gwyrdd yn cynnwys gwastraff biniau du. Beth rydych chi'n meddwl yw achos y cynnydd diweddar yn y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

“Mae cynnydd sylweddol wedi bod” yw'r hyn rydych yn ei ddweud yma, ond mae'r Cyngor yn parhau i daclo tipio anghyfreithlon mewn modd gweithredol, fel y tystir gan ein perfformiad yn 2015/16 pan, fel y dywedais yn gynharach, gafodd 97.9 o'r achosion tipio anghyfreithlon a adroddwyd eu clirio yn y pum diwrnod statudol.

Bydd camau gorfodi priodol yn parhau i gael eu cymryd pan fo tystiolaeth ar gael o'r personau sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

Mae'n ddrwg gennyf, y Cynghorydd, nad ydych wedi ateb fy nghwestiwn sef *“Beth rydych chi'n meddwl yw achos y cynnydd diweddar yn y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon?”* Ond byddaf yn rhoi cyfle i chi ateb hwnnw mewn munud.

Ond faint o ddirwyon Cosb Benodedig wedi'u cyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf a faint o erlyniadau wedi'u cyflwyno yng Nghaerdydd am dipio anghyfreithlon?

Mae'n ymddangos bod angen addysgu perchenogion tir yn sylweddol gan nad yw'n ymddangos eu bod yn deall y mae angen trwydded neu eithriad arnynt i alluogi gwastraff ar eu tir ac os nad oes trwydded ganddynt, mae'n bosibl eu bod yn torri'r gyfraith. A hefyd bod dyletswydd ar ddeiliaid tai i ofalu am eu gwastraff a sicrhau y trosglwyddir eu gwastraff i berson awdurdodedig i'w waredu – rhywun gyda thrwydded "cludwr gwastraff cofrestredig".

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hynny ar ddyddiad hwyrach ond allech chi ateb fy nghwestiwn cyntaf, sef "Beth rydych chi'n meddwl yw achos y cynnydd diweddar yn y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon?”

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Mewn perthynas â'ch pwynt am faint o hysbysiadau, rwy'n eich cyfeirio at yr ateb a roddais i gwestiwn pump, pan ofynnoch y cwestiwn hynny'n union.

*Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

O ran tipio anghyfreithlon, nid oes gennyf y wybodaeth ar wahân ond gallaf ei chael ar eich cyfer.

O ran yr hyn sy'n digwydd, rwy'n meddwl bod nifer o resymau wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf dros y cynnydd. Nid yn unig yng Nghaerdydd, gyda llaw, ond ledled y wlad – ym mhob rhan o'r DU.

Mae cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, yn chwarae rhan sylweddol oherwydd mae pobl anghyfreithlon sy'n cynnig, fel y maent, i waredu gwastraff o erddi pobl yn hysbysebu'n fawr trwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Fy nghyngor i'r bobl hynny yw os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir yna mae yn rhy dda oherwydd mae'r bobl hyn yn dod i waredu gweddillion eich cegin neu beth bynnag a'u tipio anghyfreithlon.

Hefyd o ran lleihau dwyn metel a metel sgrap, felly nad yw'r pethau hynny mor boblogaidd nawr ac mae'n rhatach ei ddympio na chael arian ar ei gyfer. A hefyd cynyddu cost gwaredu asbestos. Felly mewn geiriau eraill, pan fo pobl am waredu'r math hwnnw o bethau, gosodir pris uwch am bobl bona fide felly maen nhw'n dueddol o fynd at y bobl ddiegwyddor.

Mae nifer o resymau dros hyn, ac nid yng Nghaerdydd yn unig y mae'n digwydd.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Hyde*

Mae dau helynt wedi bod rwyf yn gwybod amdanynt yn ystod eich cyfnod fel Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd.

Yr un cyntaf oedd dechreuad biniau du llai, a wylltiodd bawb. Ac rwy'n cofio gofyn i chi yng nghraffu "beth am dipio anghyfreithlon?" Ac eich ateb i'r pwyllgor oedd nad oedd cynnydd yn y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon ac ni fyddai unrhyw.

Mae ail helynt wedi'i achosi gennych, sy'n ymwneud â chau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau). Eto, gofynnwyd i chi yng nghraffu a dywedoch yr un ateb, sef nid oes cynnydd yn y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon ac ni fyddai unrhyw.

Felly nid yw'n cymryd rhywun gyda llawer o synnwyr cyffredin, yw e, i ddarllen yr Echo a gweld yr wythnos hon yng nghyhoeddiad nos Mawrth yr holl luniau'n dangos y strydoedd llawn sbwriel yng Nghaerdydd? Ac, wrth gwrs, y stori fawr am dipio anghyfreithlon.

Mae fy nghwestiwn yn syml, beth aeth o'i le gyda'ch cynllun mawr? Ac oni fyddai'n amser i chi ailystyried eich amod?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rwy’n cofio eich cwestiwn i mi am finiau llai yng nghraffu a dywedoch eich bod yn llenwi bin mawr nawr a dywedais wrthych mai chi yw’r math o berson y mae angen iddo ailgylchu’n fwy. Ond ni fyddaf yn ymhelaethu ar hynny.

Y ffaith yw nad oes tystiolaeth wedi bod i ddangos bod biniau llai’n cynyddu tipio anghyfreithlon, a pham ddylent fod yn gwneud felly? Oherwydd, ydych chi’n dweud wrthyf y bydd pobl yn mynd allan a dweud “reit, mae fy min i’n llawn. Felly, byddaf yn tipio’r gweddill yn anghyfreithlon" gan fod ganddynt fin llai? Nid yw hwnnw’n beth neis i'w ddweud am drigolion, yw e?

Ac o ran y CAGCau, byddaf hefyd yn tynnu eich sylw at y ffaith, yn ystod fy nghyfnod, rydych yn ei alw fy “cynllun mawr” – yn ystod fy “cynllun mawr”, nad wyf wedi cau un ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref

**<u>Cwestiwn:</u>** *Y Cynghorydd Sirol Knight*

Pa gamau mae’r Cyngor yn eu cymryd i ddelio â materion gwastraff yng nghanol y ddinas?

**<u>Ymateb:</u>** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Mae’r rhan fwyaf o faterion gwastraff wedi'u hadrodd yng nghanol y ddinas yn gysylltiedig â bagiau gwastraff masnachol yn cael eu rhwygo i'w hagor gan wylanod. Nid wyf yn beirniadu gwylanod.

Ond mae nifer o gamau gweithredu'n cael eu gweithredu gan y Cyngor i helpu i leihau’r broblem hon ac i wella golwg strydoedd canol y ddinas. Mae’r rhain yn cynnwys:

- rhoi biniau ychwanegol yn Lôn y Felin, rwyf yn gwybod ei bod yn broblem;
- mwy o batrolio gan y Tîm Gorfodi ac Addysg Wastraff, fel y byddant yn allan ar y strydoedd yn trio annog busnesau i wneud yr hyn y mae angen iddynt ei wneud;
- timau glanhau ychwanegol yn gweithio yn hwyr yn y prynhawn ac yn gynnar yn y nos; a
- addasu casgliadau gwastraff masnachol, pan fo’n bosibl, i waredu gwastraff mewn bagiau yn fwy gofalus ac yn gyflymach.

**<u>Cwestiwn ategol:</u>** *Y Cynghorydd Sirol Knight*

Mae hyn wedi cael ei ofyn a’i ateb yn y datganiad ond roeddwn am dynnu sylw at fater penodol a, fel trigolyn yng nghanol y ddinas, yn aml rwy’n gweld y sbwriel gyda’r nos ac yn y bore bach ac ymdrech gwych y staff yn ystod yr oriau hynny. Felly yn gyntaf, rwy’n meddwl y dylen ni ddiolch i’r staff am y gwaith maen nhw’n ei wneud.

Ond hefyd, fel rydych wedi sôn, y casgliadau yn gynnar yn y nos yw hi pan all y gwylanod, sy’n broblem, ymosod ar y bagiau, sydd yn amlwg yn cynnwys llawer o wastraff bwyd. Felly rwy'n gwybod y dywedoch eich bod yn edrych arno a bod gennych staff sy'n gweithio gyda'r busnesau, ond rwy'n meddwl bod problem yno. Ac yn amlwg mae atal yn llawer gwell na chael cymaint o staff gyda’r nos sy’n gorfod codi’r holl wastraff yn y diwedd.

Felly beth allwch chi ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem benodol honno?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rwy'n cytuno'n llwyr. A'r broblem yw bod angen dangos i fusnesau eu hunain nad y ffordd i weithio yw hon.

Mae'n ddiddorol ein bod newydd wedi cofrestru ar gyfer yr Ardal Gwella Busnes sy'n rhoi mwy o arian i ni i lanhau canol y ddinas ond, mewn gwirionedd, mae nifer ohonynt yn cyfrannu at y ffaith ei fod mor fudr.

Felly rydym yn trio ein gorau ar wahân i'r Ardal Gwella Busnes a bydd gennym arian ychwanegol i ddelio ag ef trwy hynny ond bydd y tîm glanhau ychwanegol yn gweithio 5.00 tan 9.00 yn y nos fel y caiff bagiau'r bobl hynny nad ydynt wedi eu cyflwyno mewn pryd eu clirio, gobeithio.

Hefyd, mae'r glanhau ar y penwythnos yn broblem fawr oherwydd, gyda phob tegwch, nid wyf am anfon timau allan yn hwyr ar nos Sadwrn i lanhau'r ddinas gan fod eu hiechyd a diogelwch yn hollbwysig, yn fy marn i. Ond bydd yn ymestyn i 9pm yn y nos.

Ond fel rydych yn nodi'n gywir, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw cael busnesau i weithio gyda ni. Os dechreuant gyflwyno eu gwastraff mewn modd call, bydd gennym hanner llai o broblemau.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Sanders*

Yn rheolaidd, unwaith y mis ar ddiwedd fy shifft fel gweinidog stryd yn mynd trwy'r Aes am hanner awr wedi pedwar yn y bore yn mynd yn ôl i fy nghar, mae gweld yr holl sbwriel yn eithriadol o anghyffredin. Dylai pawb fynd i'w weld.
Ond allech chi gytuno â mi fod angen llongyfarch y timau sy'n mynd allan am 4.30/5.00 yn y bore i glirio llwythi o sbwriel sydd ymhlith yr holl gyrff ac unrhyw un arall sy'n digwydd gorwedd ar y llawr o gwmpas y lle am 4.30? Yr hyn maen nhw'n ei wneud yn job ardderchog a byddwn yn eu canmol mewn llawer a llawer o ffyrdd gwahanol. Meddyliais ei bod yn bwysig cydnabod yng nghyd-destun yr hyn rydych yn ei ddweud oherwydd eu bod yn gwneud job ardderchog.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Byddaf yn trosglwyddo'r diolchgarwch hwnnw oherwydd maen nhw'n gweithio'n galed iawn, a heb gael llawer o ddiolchgarwch am eu gwaith – yn bennaf oherwydd yr unig bobl sydd allan ar y strydoedd ar yr amser hwnnw o'r bore yw'r rhai sy'n gorwedd wyneb i lawr yn y gwter. Felly rwy'n meddwl ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu cydnabod am yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Nid y staff sydd ar fae ar gyfer y broblem hon.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Woodman*

O ran yr orsaf fysus newydd, a fydd y datblygwr neu unrhyw gorff arall yn gosod mesurau lleihau cerbydau anghyfeillgar o ddechrau'r cyfnod adeiladu, neu a ystyrir gosodiadau o'r fath ar ôl gwblhau'r gwaith adeiladu, neu yw'n achos o sicrhau arian ychwanegol er mwyn gwneud mesurau ar ddyddiad hwyrach?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Darperir ffurf o folardiau dur yn rhan o waith ehangach i wella ardal gyhoeddus y Sgwâr Canolog. Bydd hyn yn helpu i gynorthwyo gyda rheoli mynediad i'r ardaloedd i gerddwyr sy'n gyfagos at y gyfnewidfa fysus newydd a'r cyffiniau.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Woodman*

Nid ydych yn ateb fy nghwestiwn. Byddant yn rhan o'r Sgwâr Canolog ehangach. Rwyf wedi gofyn a gânt eu gosod pan fydd yr adeilad newydd yn mynd yn ei flaen? A gânt eu gwneud ar ôl cwblhau'r adeilad newydd neu a fydd ar ddyddiad llawer hwyrach?
A hefyd, fel fy nghwestiwn ategol gan nad ydych wedi ateb fy un cyntaf chwaith - yw'n rhan o'r gofrestr risgiau corfforaethol [yn dal dogfen i fyny] a gafodd ei dwyn gerbron y Cabinet ddoe neu yw'n ychwanegiad at yr holl byrth hyn sydd heb benderfyniad?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Rwy'n meddwl bod fy ateb yn eithaf clir. Rwyf wedi dweud y gosodir y bolardiau dur. Yn amlwg, pan ddaw cais cynllunio i mewn, bydd llawer o'r materion hynny ynddo hefyd. Ac rwy'n siŵr y byddwn yn siarad â'r heddlu a llawer o sefydliadau eraill hefyd am yr holl bethau hynny sy'n hollbwysig, yn gwbl hollbwysig, ac felly cynhelir y sgyrsiau hynny ar adeg briodol.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Hudson*

A allwn ni gael diweddariad ar ddatblygiad yn safle llosgwr Viridor o ran materion capasiti ac ariannol?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Gweithredir Cyfleuster Adfer Ynni Parc Trident yng Nghaerdydd gan Viridor ac mae ganddo gapasiti prosesu o 350,000 tunnell o wastraff na ellir ei ailgylchu y flwyddyn.

Yn rhan o bartneriaeth Project Gwyrdd rhwng Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a'r Fro, mae'r Cyngor wedi sicrhau contract 25 mlynedd gyda Viridor ar gyfer trin gwastraff na ellir ei ailgylchu yn thermol.

Mae contract Project Gwyrdd llawn bellach mewn grym a rheolir y perthynas gyda Viridor yn unol â'r contract. Nid oedd dim materion ariannol wedi'u dwyn i sylw'r Cyngor.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Hudson*

Rwyf wedi darllen yn ddiweddar bod Viridor am ymestyn maint ei weithrediad, sut fydd hyn yn effeithio ar Gaerdydd? Er enghraifft materion trafnidiaeth, ayyb. Ac yn y bôn, beth yw'r buddion i ni?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Rwy’n deall bod cais cynllunio wedi’i gyflwyno. Ond fel y gallwch ddychmygu, cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio yw hynny, nid fi.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Howells*

Rwy’n gwerthfawrogi na allwch roi’r wybodaeth hon i mi nawr, ond os gallech chi ei rhoi imi yn ysgrifenedig. Sut mae swm y gwastraff a grëir y tu allan i Gaerdydd sy’n dod i Viridor yn cymharu â’r hyn a fwriadwyd a sut mae swm y cerbydau sy'n dod i mewn i Gaerdydd yn cymharu â’r swm y disgwylion ni iddo ddod i mewn i Gaerdydd? Rwy’n gwerthfawrogi na fydd y wybodaeth honno gyda chi wrth law.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Derbyshire*

Yn amlwg, nid wyf yn gallu rhoi ateb pendant, Nigel, fel rydych yn gwerthfawrogi. Ond yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych yw ei bod yn unol â'r hyn a ddisgwyliwyd fwy neu lai a gofynnais ond yr wythnos arall am faterion traffig a dywedwyd wrthyf fod y rheolwyr traffig yn gweithio'n dda felly nid oes materion penodol gyda hynny. Felly mae i gyd yn mynd yn ôl â’r hyn y disgwylion ni o fewn y terfynau hynny ar hyn o bryd.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Mitchell*

Roeddwn yn falch o fynychu agoriad swyddogol Hyb y Tyllgoed a chreodd grwpiau amrywiol a fynychodd argraff fawr arnaf. A fyddai’r Aelod Cabinet yn cytuno bod y llwyddiant hwn o ganlyniad i ymdrechion canmoliaethus a di-glod staff y Cyngor a Swyddogion a gwirfoddolwyr?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bradbury*

Ni chewch eich synnu i wybod fy mod yn cytuno â chi a hoffwn ddiolch i bawb a oedd yn rhan o wneud Hyb y Tyllgoed yn llwyddiant.

Mae’n bleser gweld staff y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr lleol i wneud yr Hyb yn llwyddiant.

Ein hwythfed Hyb yw’r Tyllgoed ac mae’n adeiladu a llwyddiant y rhaglen, y llynedd ymwelodd 925,000, o bobl â’r hybiau, sy'n dangos bod cymunedau lleol yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau y maen nhw'n eu cynnig.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn Hybiau Cymunedol eleni fel Hyb Ystum Taf a Hyb STAR a fydd yn agor yn hwyrach eleni.

Yng Ngwanwyn 2017, caiff Hyb The Powerhouse ei gwblhau ac mae cynllunio ar y gweill ar gyfer Hyb yn Llanisien i gefnogi’r rhai hynny yng ngogledd y ddinas. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i staff, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr am eu holl waith caled ac rwy’n siŵr y bydd Hyb y Tyllgoed yn llwyddiant mawr.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Mitchell*

Rwy'n falch ei fod yn fy ward i ond mae'r model hwn yn cael ei weithredu ledled y ddinas. A chodais y cwestiwn dim ond oherwydd nid wyf yn teimlo y cydnabyddir

gwaith caled y staff, y gwirfoddolwyr a'r holl grwpiau sydd wedi dod ynghyd yn ein holl wardiau i gefnogi'r hybiau hyn a'u gwneud yn llwyddiannus.

Mae gennyf ddau fân gwŷn ategol.

Un yw bod rhaid i'r Hybiau, dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, gynnig cyfieithiadau ar gyfer grwpiau sy'n dod i mewn i godi posteri ar gyfer arwerthiant cis car a digwyddiadau yn y ward. Ac mae nifer o fân broblemau yn y gwasanaeth cyfieithu rydym yn ei gynnig rwyf yn gobeithio y byddwch yn eu datrys.

Ac yn ail, o ran Hyb y Tyllgoed ei hun, gan fod yr arwydd yn sefyll allan o'r wal a chan fod seddau yno, mae eisoes tystiolaeth bod pobl ifanc yn dod ynghyd yno a defnyddio arwydd yr Hyb ei hun fel ffrâm dringo ac allech chi fonitro hynny a newid y seddau a'r arwydd, a fydd hynny'n broblem?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bradbury*

Rwy'n gwybod yr hyn rydych yn trio ei ddweud ond nid wyf yn meddwl y gallaf fynd i fonitro'n bersonol blant sy'n dringo arwydd yr Hyb ond byddaf yn siarad â Swyddogion am y mater.

O ran y mater yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, dyna ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru ac mae'r gwasanaeth cyfieithu yn rhan o bortffolio gyda'r iaith Gymraeg yr Arweinydd a byddai wedi clywed y pwyntiau roeddech yn eu gwneud.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Carter*

Fel y sonioch am The Powerhouse, teimlais fod gorfod i mi ofyn cwestiwn ategol am hyn.

A allwch chi fy sicrhau y byddwch yn parhau i weithio gyda ni ar y mân fanylion mewn perthynas â'r union wasanaethau yn Hyb The Powerhouse a beth yn union fydd y canlyniad? Roeddwn yn ddiolchgar iawn am ein sgwrs dros e-bost am y llyfrgell er enghraifft. Roedd yn anffodus dysgu am hynny gan y gymuned yn hytrach na'r Cyngor. Felly diolch i chi am eich ymyrraeth ar hynny.

Ac yn ail, yn dod yn ôl at bwynt y Cynghorydd Mitchell, a allwch chi ein sicrhau y byddwn yn cael yr un gwahoddiadau i Hyb The Powerhouse? Rwy'n ceisio sicrwydd gan fod nad yw Cynghorwyr lleol yn y gorffennol wedi'u gwahodd i agoriadau swyddogol tra bod ASau ac ACau lleol wedi'u gwahodd. Felly byddwn yn ddiolchgar o'r sicrwydd hwnnw.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Bradbury*

Rwyf wastad yn mynnu bod Aelodau lleol yn cael eu gwahodd i agoriadau Hybiau. Mae rhai yn mynychu, nid yw rhai ddim yn mynychu. Yn achos y Tyllgoed, mynychodd rhai, ni fynychodd rhai.

Yn achos y gwasanaethau yn The Powerhouse, rwy'n hapus i barhau'r traddodiad rwyf wedi ei barhau gydag Aelodau eraill y Cyngor. Os oes gennych chi fel aelod unrhyw beth rydych yn meddwl y byddai'n gwella'r cynnig hwnnw o ran gwasanaethau, neu os ydych yn gwybod am grwpiau lleol a hoffen nhw fynd i mewn

yno, rwy’n hapus i siarad â’r pedwar ohonoch am hynny hefyd. Gan eich bod yn nodio eich pen, rwy’n meddwl eich bod yn gwybod bod gennyf hanes cyson o wneud hynny.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sirol Wild*

A allwch chi gadarnhau na fydd yr orsaf goetsis yng Ngerddi Sophia yn cael ei defnyddio fel ateb hirdymor?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Bydd gan y gyfnewidfa drafnidiaeth yn Sgwâr Canolog gyfleuster i goetsis ollwng a chasglu teithwyr.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Wild*

Ga i ofyn am ba amddiffyniadau sydd mewn lle i sicrhau na fydd nifer y bysus yn tyfu'n uwch na'r lefelau cyn y sefyllfa dros dro cyfredol - y bydd yn mynd yn ôl i'r amser pan fo ychydig fysus yn unig yng Ngerddi Sophia?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Yn amlwg rydym yn siarad am goetsis, rwy’n tybio, yn hytrach na fysus, ie?

O ran bysus, fel rydym bob amser wedi dweud, yr hyn a fydd yn digwydd yw bydd gennym yr opsiwn i allu mynd yn syth nôl yno, sydd bob amser wedi bod eu dewis opsiwn. Maen nhw bob amser wedi dweud mai dyna le yr hoffen nhw fynd a dyna pam rydym yn cynnig y cyfleusterau ar yr adeg honno iddynt hefyd. Felly, ni allaf ddweud beth fydd y nifer, gan yn amlwg nad ydw'n gwybod a fyddant yn dechrau cynyddu eu niferoedd mewn dwy flynedd, mewn blwyddyn ac mewn chwe mis. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw y bydd cyfleusterau iddynt allu defnyddio'r gyfnewidfa fysus newydd yn bendant.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sirol Dianne Rees*

A allwch chi gadarnhau, y Cynghorydd Patel, lle y bydd coetsis y DU a thramor sy’n ymweld â Chaerdydd yn parcio a beth fydd y gost? Oherwydd yn ddiweddar cefais broblem yn fy ward gyda choetsis tramor yn parcio mewn modd gwrthgymdeithasol mewn strydoedd preswyl a hyd yn oed ar balmantau pan oeddent yn ymweld â Chaerdydd am ychydig ddiwrnod ar y tro.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sirol Patel*

Os yw unrhyw un yn parcio'n anghyfreithlon, mae’n fater yn ymwneud â’r heddlu mewn gwirionedd gan ei fod yn amlwg yn parcio'n anghyfreithlon. Mae ganddynt ardaloedd lle y maen nhw i fod i barcio. Dylen nhw fod yn eu depos os ydynt yn mynd o un lle i un arall, byddai fod ganddynt gynllun. Dylai’r coetsis hynny wybod lle i barcio. Fel gyrwyr loriau – byddent yn gwybod lle i barcio. Ac yn amlwg, os dewch o hyd i goetsis wedi’u parcio’n anghyfreithlon, mae’n fater ar gyfer yr heddlu, yn enwedig os ydynt wedi’u parcio’n anghyfreithlon.

Mae'r cyfleuster i goetsis yng Ngerddi Sophia wedi'i adeiladu'n bwrpasol, fel rydych yn gwybod, ac fel na y bydd hi trwy'r amser. Felly nid yw hynny'n rhywbeth sy'n mynd i ddiflannu. Yr hyn sydd wedi digwydd yw'r cwestiwn y mae Caro wedi gofyn sy'n glir iawn. Yn amlwg, pan fydd y cyfleuster wedi'i adeiladu, caniateir i goetsis fynd yn ôl i Sgwâr Canolog, lle y byddai gwell gan yrwyr coetsis a chwmnïau coetsis fynd. A bydd y cyfleuster hwnnw yno. Mae'r cyfleuster yng Ngerddi Sophia wedi bodoli ers amser maeth a bydd yn parhau i fodoli.

## 55 : PENODI SWYDDOG MONITRO

Cafodd y Cyngor argymhelliad i benodi Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol arfaethedig fel Swyddog Monitro y Cyngor yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gydag effaith o 19 Medi 2016

Diolchodd yr Arglwydd Faer ar ran y Cyngor i Mr David Marr am ymgymryd â'r rôl Swyddog Monitro Dros Dro a'i gyngor a'i gymorth dros y 4 mis diwethaf.

PENDERFYNWYD - penodi Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol arfaethedig fel Swyddog Monitro'r Cyngor yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gydag effaith o 19 Medi 2016.

## 56 : ATODLEN TALIADAU CYDNABYDDIAETH AELODAU 2016-2017

Cyflwynwyd Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau 2016-17 sydd wedi'i diweddaru i gynnwys newidiadau ar ôl y cyfarfod blynyddol i gael ei chymeradwyo yn ogystal â dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD –

1. Cymeradwyo Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau 2016-17 ar sail yr atodlen proforma wedi'i rhoi gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

2. cymeradwyo dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiweddaru'r Atodlen Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Atodlen 2016-17 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn dangos unrhyw newidiadau mewn aelodaeth o'r Cyngor, Cabinet neu Bwyllgorau neu o ganlyniad i unrhyw Adroddiadau Ategol wedi'i gyflwyno gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## 57 : PENODI RHIANT-LYWODRAETHWYR I'R CORFF LLYWODRAETHU DROS DRO

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo enwebiad wedi'i dderbyn i Gorff Llywodraethu dros dro Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo penodi Dr Eleri Jones fel Rhiant-lywodraethwr i Gorff Llywodraethu dros dro Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad.

58 : AMRYWIAETH I FAINT AELODAETH Y PWYLLGORAU CRAFFU

Derbyniodd y Cyngor adroddiad i amrywio maint y Pwyllgor Craffu i wyth Aelod ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon; a chymeradwyo unrhyw newidiadau i Aelodaeth Pwyllgorau sydd wedi'u cynnwys ar y daflen newidiadau; ac i roi pwerau dirprwyedig i'r Swyddog Monitro Dros Dro i gymeradwyo unrhyw newidiadau i aelodaeth wedi'u derbyn ar ôl y cyfarfod fel y gellir gweithredu'r rhain mewn pryd ar gyfer y cylch nesaf o gyfarfodydd.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo amrywio maint Pwyllgorau Craffu'r Cyngor o 9 aelod i 8 Aelod am weddill y flwyddyn ariannol hon;

2. cymeradwyo unrhyw newidiadau i aelodaeth;

3. cymeradwyo dirprwyo pwerau i'r Swyddog Monitro Dros Dro gymeradwyo unrhyw newidiadau i aelodaeth wedi'u derbyn ar ôl y cyfarfod fel y gellir gweithredu'r rhain mewn pryd ar gyfer y cylch nesaf o gyfarfodydd.

4. Cymeradwyo enwebiadau i'r Pwyllgor Pensiynau fel a ganlyn: -

   Y Cynghorwyr Elsmore, Evans a Hinchey (Llafur);
   Y Cynghorydd Margaret Jones (Democrat Rhyddfrydol);
   Y Cynghorydd Graham Thomas (Ceidwadol).

59 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

## ARWEINYDD - DATBLYGU ECONOMAIDD A PHARTNERIAETHAU (Y CYNGHORYDD PHIL BALE)

### CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIROL CHAUNDY

Pam *nad* yw'r costau cynnal a chadw neu gynlluniau cynnal a chadw ategol rhesymol wedi eu cynnwys neu'u *hystyried* yn y broses asesu ar gyfer Projectau Adnewyddu Cymdogaethau Aelodau (e.e. fel meysydd chwarae i blant)?

**Ymateb**

Ariennir Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau gan Raglen Cyfalaf y Cyngor na ellir ei defnyddio i ariannu costau cynnal a chadw parhaol.
Fodd bynnag, ystyrir goblygiadau cynnal a chadw yn rhan o’r broses asesu a ddefnyddir i benderfynu ar y syniadau project Cynllun Adnewyddu Cymdogaethau sy’n cael eu blaenoriaethu.

Mewn llawer o achosion, mae projectau Cynllun Adnewyddu Cymdogaethau yn cynnwys adnewyddu hen seilwaith wedi’i dirwyo gyda gwelliannau ardal gyhoeddus o ansawdd, sy’n arwain at lai o ofynion cynnal a chadw ac arbedion cysylltiedig. Pan fo cyfleusterau newydd, fel meysydd chwarae, yn cael eu blaenoriaethu a phan fo costau cynnal a chadw parhaol yn cyflwyno her oherwydd pwysau ar gyllidebau cyfarwyddiaeth, gellir archwilio'r defnydd o ffynonellau ariannu ategol (fel arian Adran 106) er mwyn datblygu'r project.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified